

## Cystadleuaeth Llun Calendr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

\*\*\* Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer y gystadleuaeth fisol cyntaf yw hanner nos ar 23 Medi 2018 \*\*\*

### Telerau ac Amodau Sut i gystadlu

1. Mae cystadleuaeth Ffotograffig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn cael ei drefnu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam (CBSW). Mae'n rhad ac am ddim i gystadlu ac mae'n agored i ffotograffwyr sy'n byw yn y DU. Mae'n rhaid i ymgeiswyr o dan 16 oed gael caniatâd i gymryd rhan yn y gystadleuaeth gan riant neu warchodwr.
2. Nod y gystadleuaeth yw dod o hyd i'r lluniau gorau o bensaerniaeth, golygfeydd neu ddigwyddiadau Wreccsam. Bydd y lluniau gorau yn cael ei gynnwys yng nghalendr 2019 CBSW.
3. Mae'n rhaid i bob llun gael ei dynnu ym Mwrdeistref Sirol Wreccsam. Mae'n rhaid iddynt gynrychioli'r mis pan gafodd y llun ei anfon ar gyfer y gystadleuaeth.
4. Gall cystadluwyr anfon cynifer o luniau ag a ddymunant.
5. Mae'n rhaid i bob cais gael ei e-bostio i [calendar@wrexham.gov.uk](mailto:calendar@wrexham.gov.uk) Dylid anfon ceisiadau gydag eglurder o 300dpi o leiaf a'r fformatau ffeiliau a dderbynnir yw Tiff, Psd, Epos, Jpeg, High res pdf. Mae'n rhaid i geisiadau gynnwys enw'r ymgeisydd (ac enw riant/gwarcheidwad ac oedran yr ymgeisydd os yw'r ymgeisydd yn 16 oed neu iau) a rhif ffôn cyswllt. Mae'n rhaid cynnwys capsiwn/disgrifiad byr o'r llun, manylion ynglŷn â lle tynnwyd y llun a'r mis pan gafodd ei dynnu gyda'r llun.
6. Mae'n rhaid i bob cais fod yn waith gwreiddiol yr unigolyn sy'n ei gyflwyno (neu waith plentyn os cyflwynwyd gan riant/Gwarcheidwad). Ni ddylent gael eu cyhoeddi yn unrhyw le arall nac wedi ennill gwobr mewn unrhyw gystadleuaeth ffotograffig arall. Mae'n rhaid i ymgeiswyr warantu mai eu llun nhw eu hunain yw'r un maent yn ei gyflwyno a'u bod yn berchen ar yr hawlfraint ar ei gyfer.

7. Wrth dynnu lluniau, ni ddylai ymgeiswyr beryglu eu hunain nac eraill na chymryd unrhyw risg diangen, na thorri hawlfraint unrhyw drydydd parti na thorri unrhyw gyfraith. Cyfrifoldeb pob ymgeisydd yw sicrhau bod unrhyw ddelweddau maent yn eu cyflwyno wedi cael eu tynnu gyda chaniatâd y gwrthrych. Os yw'r llun o blentyn o dan 18 oed, bydd yr ymgeisydd angen cydsyniad ysgrifenedig gan y rhieni a'i gyflwyno i CBSW. Mae'n rhaid gofyn am ganiatâd cyn cyflwyno lluniau o eiddo preifat neu ardd breifat.

8. Mae'r gystadleuaeth wedi'i rhannu yn 12 cystadleuaeth fisol ar wahân. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd hanner nos ar ddiwrnod olaf y mis, hyd at ac yn cynnwys hanner nos ar 31 Hydref 2017. Bydd cystadleuaeth y mis canlynol yn agor ar gyfer ceisiadau ar y 1af o bob mis. Y dyddiad cau ar gyfer cystadleuaeth y mis cyntaf yw hanner nos ar 23 Medi 2018.

9. Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn derbyn cyfrifoldeb am ddelweddau sy'n mynd ar goll, yn hwyr neu'n llygredig. Ni fydd prawf trosglwyddo yn cael ei dderbyn fel prawf derbyn.

10. Ni ddylai ceisiadau gael eu hanfon drwy asiantaethau neu drydydd parti.

11. Gall yr enillwyr gael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gweithgaredd hyrwyddo sy'n gysylltiedig â'r Gystadleuaeth.

#### Beirniadu

12. Y Beirniaid yw: Emma Glover, Swyddog Cyhoeddusrwydd, Bethan Rogers, Swyddog Marchnata Digidol, Sue Wyn Jones, Arweinydd Brand Digidol a Chyfathrebu, Rob Griffiths, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Digidol, Chris Henshaw, Arweinydd Tîm Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus

Ymgynghorydd Arbennig i'r beirniaid: Mike Dean, Eyeimagery

13. Bydd y beirniadu'n digwydd o fewn 7 diwrnod i ddyddiad cau'r gystadleuaeth ac mae penderfyniad y Beirniaid yn derfynol. Bydd y ceisiadau buddugol y mwyaf deniadol i'r llygad, yn gais gwreiddiol.

14. Bydd yr enillwyr yn cael ei hysbysu drwy e-bost o fewn 10 diwrnod o ddyddiad cau'r gystadleuaeth.

15. Bydd llun yn cael ei wrthod, os ym marn y Beirniaid, mae'n ymddangos bod y llun wedi cael ei gymryd yn y fath fodd ei fod yn torri unrhyw gyfreithiau neu wedi cael ei dynnu mewn modd anghyfrifol.

16. Mae'r Beirniaid yn cadw'r hawl i beidio cyflwyno unrhyw wob, os yn eu barn nhw nad yw'r un o'r ceisiadau yn cyrraedd y safon ofynnol.

17. Mae penderfyniad y Beirniaid yn derfynol ac nid oes hawl i apelio na chyflwyno achos yn erbyn y penderfyniadau hyn.

Sut byddwn yn defnyddio eich llun

18. Trwy gymryd rhan yn y Gystadleuaeth, mae pob ymgeisydd yn rhoi caniatâd i CBSW gyhoeddi a dangos eu lluniau ar wefan y Cyngor ar gyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i Facebook, Twitter a Flickr) ac/neu mewn deunydd hyrwyddo, marchnata neu hysbysebu sy'n gysylltiedig â'r Gystadleuaeth hon. Gall lluniau buddugol gael eu hargraffu yn y cyfryngau lleol. Bydd CBSW yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod lluniau'n cael eu credydu, gan gynnwys atgynhyrchiadau printiedig o'u gwaith ond ni all CBSW warantu y bydd pob defnydd o'r lluniau ar gyfer cyhoeddi neu ddarlledu yn cynnwys enw'r ffotograffydd. Bydd CBSW yn gofyn i'r wasg gredydu ffotograffwyr lle mae'r delweddau yn cael eu defnyddio ond ni ellir eu dal yn gyfrifol am wallau a hepgoriadau.

19. Bydd ymgeiswyr yn cadw hawlfraint y lluniau maent yn eu cyflwyno ond yn cytuno y gall CBSW a'i bartneriaid wneud y lluniau ar gael fel delweddau heb freindal er mwyn eu cyhoeddi mewn calendr 2019 ac i hyrwyddo ardal Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

20. Ni fydd ffioedd yn daladwy ar gyfer unrhyw un o'r uchod.

21.Ni all CBSW gyhoeddi lluniau sy'n adnabod plant oni bai y darperir caniatâd ysgrifenedig gan eu rhiant/Gwarcheidwad i CBSW.

Gwobr

22.Bydd pob enillydd yn derbyn copi o Galendr 2019 Wreccsam pan fydd yn cael ei gynhyrchu, a'u henw wedi'i gynnwys gyda'r llun.

Diogelu Data

23.Trwy gymryd rhan yn y Gystadleuaeth, mae ymgeiswyr yn cytuno i gasglu, cadw, defnyddio a dosbarthu eu gwybodaeth bersonol er mwyn prosesu a gweinyddu'r gystadleuaeth, er mwyn galluogi CBSW i gysylltu â nhw ynglŷn â'u cais ar gyfer y Gystadleuaeth ac at y dibenion a amlinellir yn y Telerau ac Amodau hyn. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi enw'r enillydd.

Cyffredinol

24.Mae CBSW yn cadw'r hawl i amrywio, newid neu ganslo'r Gystadleuaeth hon os yw'n ystyried bod angen a/neu bod amgylchiadau yn codi y tu hwnt i'w reolaeth; neu i addasu'r Telerau a'r Amodau hyn ar unrhyw adeg trwy wefan CBSW heb roi rhybudd.

25.Trwy gymryd rhan yn y Gystadleuaeth, bydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried i fod wedi cytuno i'r Telerau ac Amodau hyn. Mae CBSW yn cadw'r hawl i eithrio unrhyw ymgeisydd o'r gystadleuaeth ar unrhyw adeg ac yn ei ddisgresiwn llwyr, os oes gan CBSW reswm i gredu bod ymgeisydd wedi torri unrhyw un o'r Telerau ac Amodau.

26.Nid yw CBSW yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddifrod, colled, anaf neu siomedigaeth a brofwyd neu a ddioddefwyd gan ymgeiswyr o ganlyniad i gymryd rhan yn y Gystadleuaeth.

27.Mae ymgeiswyr yn cytuno i indemnio CBSW ac i gadw CBSW wedi'i indemnio yn erbyn unrhyw golled, difrod, anaf, cost neu dreuliau a ddioddefwyd gan CBSW yn sgil eu hymgais yn y

Gystadleuaeth, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i, unrhyw hawliad o dorri hawliau eiddo deallusol a wnaed gan unrhyw drydydd parti.

28.Ni fydd unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn yn eithrio atebolrwydd CBSW ar gyfer marwolaeth, anaf personol, twyll neu anwiredd twyllodrus o ganlyniad i'w esgeulustod.

29.Bydd y Telerau ac Amodau hyn yn cael eu llywodraethu yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr.

30.Os bydd gan gystadleuwyr unrhyw gwestiynau am sut i ymgeisio, neu ynglŷn â'r Gystadleuaeth hon, anfonwch neges e-bost at [calendar@wrexham.gov.uk](mailto:calendar@wrexham.gov.uk).